Cofnodion cyfarfod **BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR** a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2014 yn Ystafell y Llys, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Nodiadau	**Gweithredu**
YN BRESENNOL: Elisabeth Elias, Llywydd (yn y Gadair); Haydn Edwards, Is-lywydd; Laurie Pavelin, Trysorydd; Carole-Anne Davies; Christina Macaulay; Gareth Wyn Jones; Glenda Jones; Hywel Ceri Jones; Keshav Singhal; Miriam Griffiths; Robert Pickard; Victoria Provis; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Mark Richards, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol; Judith Ingram, Pennaeth Polisi a Chynllunio ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa. **YN BRESENNOL**: Lesley-Anne Kerr (CyMAL) yn arsylwr.	
1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU 1.1 Croesawyd yr aelodau a Lesley-Anne Kerr i'r cyfarfod. Croesawyd Laurie Pavelin i gyfarfod y Bwrdd fel Trysorydd. Cafwyd ymddiheuriadau gan Carol Bell; Kay Andrews; Tony Atkins; Linda Tomas (CyMAL), Peter Wakelin, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil. 1.2 Roedd y Llywydd yn drist o gofnodi marwolaeth yr Ymddiriedolwr David Vokes a dymunodd nodi gwerthfawrogiad aruthrol y Bwrdd am ei waith yn cefnogi'r Amgueddfa, fel Ymddiriedolwr a Noddwr. Roedd David yn uchel ei barch, a bydd hiraeth mawr ar ei ôl.	
Yn Sesiwn Gaeedig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod a chael eu briffio am y Rhaglen Newid, cynllunio ariannol a sganio'r gorwel. ***Yna agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd ond nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol.***	
2 COFNODION 5.1 Penderfynwyd: Bod Cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd ar 11 Medi 2014 a 24 Hydref 2014 yn cael eu cymeradwyo.	
3 MATERION YN CODI o gofnodion 11 Medi 2014 3.1 4.1.1 Cylch gorchwyl – bod y newidiadau'n cael eu cynnwys yn yr adolygiad blynyddol.	
4 DOGFEN Y WELEDIGAETH	

Nodiadau	**Gweithredu**
4.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan David Anderson. 4.2 Adroddwyd: Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ymateb y staff i'r cynigion, ac yng nghyfathrebiad yr Amgueddfa â CyMAL. Roedd pawb yn cefnogi'r weledigaeth ddrafft newydd. 4.3 Bu'r aelodau'n trafod pwynt gwerthu unigryw'r Amgueddfa, statws y casgliadau ar draws y weledigaeth a gwerthoedd ac egwyddorion y weledigaeth. Hefyd, trafodwyd ble i flaenoriaethu gwerth economaidd gwaith yr Amgueddfa, a'r modd yr oedd projectau ymchwil trawsnewidiol sy'n ymateb i anghenion y cyhoedd yn newid hanesyddol i'r Amgueddfa. 4.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y weledigaeth ddrafft ar gyfer ymgynghori yn cael ei chymeradwyo.	
5 LLYWODRAETHU 5.1 **Adroddiad Blynyddol ar Faterion Ariannol yr Amgueddfa 2013/14** 5.1.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, y Pennaeth Cyllid a'r Trysorydd. 5.1.2 Adroddwyd: Bod y Trysorydd wedi dweud bod cyflwyno'r cyfrifon i'r Bwrdd yn un o ofynion llywodraethu'r Amgueddfa. 5.1.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod cyfrifon blynyddol 2014/15 yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi gan fod hynny'n ymarferol. 5.2 **Fformat yr adroddiad blynyddol yn y dyfodol** 5.2.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, y Pennaeth Cyllid a'r Trysorydd. 5.2.2 Adroddwyd: Bod y Trysorydd wedi nodi argymhellion y Pwyllgorau Archwilio ac Adolygu Perfformiad i gyflwyno'r Adroddiad Ariannol Blynyddol ar-lein, ac y bydd adroddiad effaith byrrach yn cael ei gynhyrchu ar ffurf brintiedig ac ar-lein. 5.2.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny. 5.3 **Aelodaeth o'r Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil** 5.3.1 Adroddwyd: Yn sgil sefydlu'r Cylch Gwaith ar gyfer y Pwyllgor, bod y Llywydd wedi cyflwyno rhestr o Aelodau'r Ymddiriedolaeth, gyda phob un yn gallu cynnig profiad ymchwil amrywiol i'r Pwyllgor. 5.3.2 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod yr aelodaeth yn cael ei chymeradwyo.	Ysgrifennydd yr Amgueddfa

Nodiadau	Gweithredu
6 EITEM 7 AR YR AGENDA – STRATEGAETH YMCHWIL INTERIM 6.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil. 6.2 Adroddwyd: Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi dweud bod y Strategaeth Interim wedi'i chyflwyno i'r Bwrdd tra'r oedd aelodaeth o'r Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil yn cael ei sefydlu, ac er mwyn paratoi ar gyfer penodi Pennaeth Ymchwil. Hefyd, roedd Strategaeth Casgliadau'n cael ei datblygu a byddai'r rhain i gyd yn cael eu llywio gan Weledigaeth newydd yr Amgueddfa. Mae'r Amgueddfa wedi trafod â phartneriaid eraill fel Prifysgol Caerdydd a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. 6.3 Nododd yr Aelodau y gall hyd at bedwar Aelod annibynnol o'r Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil gael eu penodi, a bod trafodaethau â phartneriaid posibl yn dal i fynd rhagddynt. Trafododd yr Aelodau natur ac amserlenni ymchwil ar draws yr Amgueddfa. Nododd yr Aelodau mai bwriad yr Amgueddfa oedd sicrhau bod ymchwil yn llywio gwaith yr holl staff. 6.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod y Strategaeth Ymchwil Interim yn cael ei chymeradwyo, ac mai rhwng aelodau'r Ymddiriedolwyr a'r staff y byddai cyfarfod cynta'r Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil.	Cyfarwyddwr Cyffredinol / Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil
7 EITEM AR YR AGENDA – MATERION CASGLIADAU 7.1 **Strategaeth Datblygu Casgliadau Amlinellol** 7.1.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil. 7.1.2 Adroddwyd: Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi nodi fod y strategaeth hon yn un o ofynion cais yr Amgueddfa i'r Cynllun Achredu. Mae'r Strategaeth yn amlinellu hefyd sut y byddai datblygu casgliadau'n ymateb i gyfeiriad newydd yr Amgueddfa a'r newidiadau pwysig o ran adnoddau naturiol, strwythur sefydliadol a disgwyliadau darpariaeth ddigidol. 7.1.3 Nododd yr Aelodau y cysylltiad â'r Strategaeth Rheoli Casgliadau, y Strategaeth Ymchwil Interim a strategaethau a pholisïau sefydliadau eraill fel y Llyfrgell Genedlaethol a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Byddai trafodaethau â sefydliadau eraill y wlad fel Llywodraeth Cymru yn llywio gwaith yr Amgueddfa hefyd. 7.1.4 Nododd yr Aelodau yr effaith a gafodd cwtogi'r Grant Caffael Sbesimenau ar allu'r Amgueddfa i gasglu pethau. Roedd y cyllid hwn yn gyfraniad hollbwysig at incwm ychwanegol, yn enwedig o ran casglu celf. Atgoffwyd y Dirprwy Weinidog o hyn ym mhob cyfarfod gyda'r Llywydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Casglu ar gyfer Sain Ffagan oedd un o brif flaenoriaethau'r Amgueddfa ar hyn o bryd. 7.1.5 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod y strategaeth yn cael ei chymeradwyo a'i bod ar gael i'r Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil, a bod fersiwn ddiwygiedig yn	Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

Nodiadau	Gweithredu
cael ei chyflwyno i'r Bwrdd maes o law. 7.2 **Gweithgareddau Casgliadau ac Ymchwil** 7.2.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil 7.2.2 Adroddwyd: Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi tynnu sylw at ddetholiad o weithgareddau allweddol o'r rhaglen. 7.2.3 Nododd yr Aelodau y gwaith aruthrol a wnaed er budd pobl Cymru, a'r cyfleoedd eirioli a ddeilliodd o'r gwaith hwn. 7.2.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny. 7.3 **Benthyciadau Rhyngwladol** 7.3.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil. 7.3.2 Adroddwyd: Bod y Bwrdd wedi derbyn cais i ystyried y tri argymhelliad ar gyfer benthyciadau. 7.3.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod yr argymhellion yn cael eu cymeradwyo.	
8 EITEM 6 AR YR AGENDA – ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL, BRIFFIAD CHWARTEROL CHWARTER 2, MATERION CYFREDOL 8.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 8.2 Adroddwyd: Bod y Llywydd wedi diolch i bawb a gyfrannodd i sicrhau bod cynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd cystal llwyddiant, ac am alluogi'r Ymddiriedolwyr i fynychu a chyfrannu. Diolchodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol i CYMAL am ei gefnogaeth ariannol. Roedd Gŵyl yr Amgueddfa a'r Fflach Amgueddfa yn weithgareddau newydd ar gyfer y gynhadledd, ac yn gyffredinol, hon oedd cynhadledd fwyaf llwyddiannus y Gymdeithas hyd yma. Diolchwyd am gymorth a chefnogaeth y Bwrdd, nas gwelwyd ei debyg yn hanes y gynhadledd. Nododd yr Ymddiriedolwyr y defnydd helaeth o'r Gymraeg yn ystod y gynhadledd, a'r croeso cynnes a gafodd y mynychwyr yn y digwyddiad yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Diolchodd Lesley-Anne Kerr i Heledd Fychan, Rheolwr Materion Corfforaethol ac Eiriolaeth yr Amgueddfa am ei chyfraniad eithriadol, ac am sicrhau llwyddiant y gynhadledd. ***Gadawodd y Llywydd, y Trysorydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol y cyfarfod ar y pwynt hwn i fynychu angladd y cyn Ymddiriedolwr David Vokes. Daeth yr Is-lywydd Haydn Edwards i'r Gadair.*** 8.3 Cyflwynodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu yr adroddiad ysgrifenedig, gan dynnu sylw at y ffigurau ymwelwyr cadarnhaol a'r cynnydd mewn ffigurau addysg ffurfiol. Nododd yr Aelodau y diweddariad	

Nodiadau	Gweithredu
ariannol. 8.4 Croesawodd yr Aelodau gyfraniad pwysig plant a nodi cysylltiadau dwyieithog yr Amgueddfa ag ysgolion meithrin ledled y wlad. 8.5 Penderfynwyd: Yn unol â hynny.	
9 EITEM 8 AR YR AGENDA: Y DIWEDDARAF AM BROJECT CREU HANES SAIN FFAGAN AMGUEDDFA WERIN CYMRU 9.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu. 9.2 Adroddwyd: Bod cwmni Kier Construction wedi dechrau ar y safle a bod materion cytundebol wedi'u trafod ag is-grŵp Ymddiriedolwyr Grŵp Comisiynu'r Project y diwrnod blaenorol. Roedd y gwaith peirianneg gwerth yn parhau gyda swm targed o £200,000 i'w wireddu. £17.1 miliwn oedd gwerth y contract targed, ond gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo gwerth contract o £17.2m gydag unrhyw gynnydd o £17.1m i'w gynnwys yng nghyllideb gyffredinol y project. Cynigiwyd ymestyn dyddiad y llythyr o fwriad er mwyn cefnogi'r trafodaethau gyda chwmni Kier, tra bod y gwaith yn parhau'n ddi-dor. Cafodd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer rhyddhau'r arian wrth gefn. Roedd proses lofnodi Cam E wedi'i chwblhau a'r adran Digwyddiadau yn dal yn ymwneud â'r broses peirianneg gwerth. Mae'r bwlch cyllid wedi'i leihau i £743,000 ac ymwelodd tri aelod o'r Bwrdd Datblygu â'r safle yn ddiweddar. Mae Grŵp Comisiynu'r Project wrthi'n cytuno ar enw ar gyfer y safle. 9.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y Bwrdd wedi rhoi caniatâd i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cyfarwyddwr y Project a'r Cyfarwyddwr Cyllid gytuno ar gontract gwerth hyd at £17.2m a chytuno ar yr hyn a allai fod yn amrywiad sylweddol i'r ffigur hwn.	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/ Cyfarwyddwr Gweithredu / Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol / Trysorydd
10 MATERION PWYLLGOR 10.1 Derbyniwyd a Nodwyd: Cofnodion drafft: i. Mentrau AOCC Cyf. 13 Tachwedd 2014 ii. Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru 26 Tachwedd 2014 iii. Pwyllgor Archwilio 18 Tachwedd 2014 iv. Pwyllgor Adolygu Perfformiad 20 Tachwedd 2014 v. Ymddiriedolwyr Pensiwn 21 Hydref ac 19 Tachwedd 2014 vi. Y Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaethau Ariannol 26 Tachwedd 2014 10.2 Adroddwyd: Yn achos Mentrau AOCC Cyf. Bod problemau arlwyo wedi'u nodi yn Llanberis, a bod y cynllun tair blynedd yn mynd rhagddo. O ran cyfarfodydd	

Nodiadau	Gweithredu
Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Amgueddfa Cymru, nododd y Bwrdd fod Ymddiriedolwyr y Cynllun yn gweithredu er lles ei Aelodau a'i fod yn ceisio bod mor gymwynasgar â phosib i'r Amgueddfa yn yr hinsawdd economaidd anodd hon. O ran y Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaethau Ariannol, dywedodd yr Ymddiriedolwr Miriam Griffiths pa mor ddiolchgar oedd y Pwyllgor i'r Llywydd a'r Is-lywydd am gytuno i gael eu hystyried ar gyfer ymestyn eu penodiad am flwyddyn arall. 10.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod cofnodion drafft Grŵp Comisiynu Project Amgueddfa Genedlaethol y Gwyddorau Naturiol a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2014 yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Mawrth y Bwrdd.	Ysgrifennydd yr Amgueddfa / Ymddiriedolwyr
11 UNRHYW FATER ARALL Nid oedd unrhyw fater arall.	
12 AGENDA'R BWRDD STRATEGOL 12.1 Nododd yr Aelodau'r eitemau i'w trafod yng nghyfarfod y Bwrdd ar 12 Mawrth 2015.	
DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF: Penderfynwyd: Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9am, 12 Mawrth 2015 yn Ystafell y Llys, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.	